

Asesiad o Les Lleol Abertawe 2017

Atodiad 1: Proffil demograffig o Abertawe

Abertawe, sydd yng nghanol arfordir de Cymru, yw'r ail ddinas fwyaf yng Nghymru ac mae'n ganolfan ranbarthol ar gyfer de-orllewin Cymru. Dau awdurdod lleol cyfagos Abertawe yw Sir Gâr i'r gorllewin a Chastell-nedd Port Talbot i'r dwyrain.

Mae'r Ddinas a'r Sir yn cynnwys arwynebedd tir o 378 km sg. a gellir ei rhannu'n fras i bedair ardal ddaearyddol: gweundiroedd agored ucheldiroedd Lliw i'r gogledd; penrhyn gwledig Gŵyr yn y gorllewin, sy'n cynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y DU; yr ardal faestrefol sy'n ymestyn o ymyl Abertawe i aneddiadau yn y gorllewin a gerllaw coridor yr M4; a'r strïbed arfordirol o gwmpas Bae Abertawe, sy'n cynnwys canol y ddinas a chanolfannau ardal cyfagos gan gynnwys Uplands, Sgeti a'r Mwmbwls.


Poblogaeth Abertawe

Yr amcangyfrif swyddogol diweddaraf o boblogaeth Dinas a Sir Abertawe (ym mis Mehefin 2015) yw 242,400. Mae gan Abertawe'r ail boblogaeth awdurdod lleol fwyaf yng Nghymru sydd bron 8% o'i chyfanswm poblogaeth (3,099,100).

Dwysedd poblogaeth cyfartalog y sir yw 638 o bobl y km sg. (amcangyfrif 2015), y chweched uchaf o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru (cyfartaledd o 149 o bobl y km sg). Nid yw'r boblogaeth wedi'i dosbarthu'n gyfartal yn Abertawe, gyda'r rhan fwyaf o bobl yn byw yn yr ardal drefol a'r aneddiadau cyfagos i'r gogledd, gan gynnwys Treforys (sydd â'r boblogaeth ward ail fwyaf; tua 16,500 yn 2015), Clydach, Gorseinon a Phontarddulais.

Mae amcangyfrifon diweddar o ddwysedd poblogaeth yn y wardiau (Cyfrifiad 2011) yn datgelu crynhoad uchel o boblogaeth yng nghanol y ddinas ac o'i chwmpas (ward y Castell), wardiau cyfagos Cwmbwrla ac Uplands (6,800 o bobl y km sg., y dwysedd poblogaeth uchaf yn y sir) a hefyd yn Townhill a Phenderi.

Ffigur 1: Dwysedd poblogaeth fesul ward
Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth (SYG, 2011) ac arwynebedd tir (km sg.)



Mae'r rhain yn cyferbynnu â'r ardaloedd gwledig tenau eu poblogaeth yn ardal Gŵyr a gogledd Lliw (mae dwysedd poblogaeth wardiau Mawr a Gŵyr yn 32 o bobl y km², yr isaf yn y sir).

Mae'r map (ffigur 1) yn dangos amcangyfrif o ddwysedd poblogaeth pob Adran Etholiadol neu Ward yn Abertawe, yn 2011.

Strwythur y Boblogaeth

Mae amcangyfrifon diweddaraf y SYG o strwythur rhyw ac oed poblogaeth Abertawe (Mehefin 2015) wedi'u nodi yn Nhabl 1 isod, ynghyd â'r ffigurau canran cyfwerth ar gyfer Cymru a'r DU.

Tabl 1: Cyfansoddiad Poblogaeth Abertawe yn ôl Rhyw ac Oed, canol 2015


Oedran	Abertawe				Cymru %	Y DU %
	Gwrywod	Benywod	Cyfanswm	%		
0-4	7,000	6,300	13,200	5.5	5.7	6.2
5-15	14,700	13,700	28,400	11.7	12.2	12.6
16-24	18,600	15,400	34,000	14.0	11.8	11.4
25-44	30,600	29,300	59,900	24.7	23.8	26.4
45-64	29,200	30,700	59,900	24.7	26.3	25.6
65-74	11,800	13,300	25,100	10.4	11.2	9.7
75+	8,900	12,700	21,700	8.9	9.0	8.1
Cyfanswm	120,900	121,500	242,400	100	100	100

Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn 2015, SYG.

Mae cyfran poblogaeth oed gweithio Abertawe (h.y. pob un sydd rhwng 16 a 64 oed) sef 63.5% yn uwch na Chymru (61.9%) a'r DU (63.3%). Fodd bynnag, mae gan Abertawe gyfran is o blant (0-15 oed), sef 17.2%, na Chymru (17.9%) a'r DU (18.8%).

Mae'r pyramid poblogaeth gyferbyn yn dangos yr amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer Abertawe yn ôl oed a rhywedd.

Ffigur 2: Poblogaeth Abertawe, canol 2015




Mae'r pyramid yn amlygu'n benodol y cynnydd mawr sydyn yng ngharfan y boblogaeth 19 - 22 oed, sy'n rhannol gysylltiedig â'r mewnlif o fyfyrwyr i astudio yn y ddwy brifysgol yn Abertawe, y mae cyfran fawr ohonynt yn dod o rannau eraill o'r DU ac o dramor. Mae ystadegau a gyhoeddwyd ar gyfer 2013-14 yn cofnodi bod dros 16,500 o fyfyrwyr amser llawn mewn Addysg Uwch yn y ddwy brifysgol leol (Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant), a thros 4,500 o fyfyrwyr amser-llawn ychwanegol mewn Addysg Bellach (Coleg Gŵyr Abertawe).

Newid mewn Poblogaeth

Mae'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn tymor hir a gyhoeddwyd gan SYG yn awgrymu bod poblogaeth Abertawe wedi tyfu'n raddol rhwng 2001 a 2015, gan wrthdroi'r

duedd a gofnodwyd yn y 1990au (er y cafwyd pryderon cyffredinol y tangyfrifwyd canlyniadau Cyfrifiad 2001 a'r amcangyfrifon poblogaeth cysylltiedig). Rhwng 2005 a 2015, cyfradd gyfartalog twf y boblogaeth a briodolwyd i Abertawe oedd tua +1,300 o bobl (+0.6%) y flwyddyn. Dangosir y duedd hirdymor gyffredinol ym mhoblogaeth Abertawe ers 1991 isod, ac mae'n cynnwys yr amcangyfrifon swyddogol diweddaraf a'r rhai yr adroddwyd amdanynt cyn rhyddhau canlyniadau Cyfrifiad 2011.



Mae amcangyfrifon swyddogol elfennau allweddol newid mewn poblogaeth - sef genedigaethau, marwolaethau a mudo - yn awgrymu mai prif ysgogydd twf y boblogaeth yn Abertawe dros y cyfnod 2001-2015 oedd mudo. Yn y deng mlynedd o 2001, y mewnlif net blynyddol cyfartalog o'r holl fudo oedd 1000; er, rhwng 2011 a 2014 mae'r ffigur hwn wedi bod yn is, sef oddeutu 600, cyn cynyddu i 1,100 yn y flwyddyn i 2015. Mewn rhai blynyddoedd, mae'r rhan fwyaf o'r twf wedi dod o fudo mewnol (o fewn y DU) (yn bennaf ar gyfer y blynyddoedd 2002-04 a 2009-10); mewn blynyddoedd eraill, drwy fudo rhyngwladol (mewn naw o'r deng mlynedd diwethaf).

O ran newid naturiol, mae nifer y genedigaethau byw a gofnodwyd yn Abertawe wedi codi'n gyffredinol ers 2001, a thros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae nifer y marwolaethau wedi disgyn (er bod ffigurau'n amrywio). Y canlyniad net, o 2005 ymlaen, yw bod nifer y genedigaethau wedi bod yn fwy na'r marwolaethau, gan gyfrannu'n gadarnhaol at dwf y boblogaeth, yn fwyaf arwyddocaol yn y blynyddoedd 2007-08 a 2010-12.

Newid yn ôl oed

Gellir darparu trosolwg o dueddiadau diweddar drwy ddadansoddi'r prif newidiadau yn strwythur oed poblogaeth Abertawe dros y cyfnod deng mlynedd, 2005-2015.

O ran y grwpiau 'cam bywyd' allweddol, dyma'r tueddiadau cyffredinol:

- **Pawb:** cynnydd o 13,000 (+5.7%), o 229,300 i 242,400.
- **Plant (0 i 15 oed):** newid net bach (+400/0.9%) i 41,700.
- **Oedran gweithio (16-64 oed):** cynnydd o 6,900 (+4.7%) i 153,500, islaw cyfradd gyffredinol gyfwerth y cynnydd mewn poblogaeth yn Abertawe.

- **Pobl hŷn** (65 oed ac yn hŷn): cynnydd o 5,800 (+14.1%) i 46,800; adlewyrchu poblogaeth sy'n heneiddio, yn unol â thueddiadau ehangach.

Ar gyfer carfanau llai, dyma'r tueddiadau ar gyfer Abertawe dros y cyfnod deng mlynedd hwn:

- 0-4 oed: twf o 1,100 (+8.9%), sy'n adlewyrchu'n bennaf y genedigaethau yn y 2010au
- 5-15 oed: cwmp cyffredinol o 700 (-2.5%), sy'n adlewyrchu'n rhannol effaith llai o enedigaethau ar ddechrau'r 2000au, er ei bod yn ymddangos bod cyfradd y dirywiad yn arafu
- 20-24 oed: twf sylweddol o 2,200 (+11.7%), sy'n rhannol gysylltiedig â lefelau cynyddol o fewnfudo mewnol gan fyfyrwyr o rannau eraill o'r DU a thramor
- 25-29 oed: cynnydd hyd yn oed yn fwy sylweddol yn y garfan hon o 3,100 (+23.3%), oherwydd cynnydd mewn mewnudo mewnol a newid demograffig lleol arall
- 35-44 oed: colled gyffredinol o 3,000 (-9.6%) yn y garfan ddeng mlynedd hon
- 45-54 oed: cynnydd o 2,800 (+9.8%), yn rhannol oherwydd y cynnydd mawr a gafwyd mewn genedigaethau yn y 1960au
- 60-69 oed: cynnydd o 4,000 (+17.0%), sy'n adlewyrchu'r cynnydd mawr a gafwyd mewn genedigaethau yn dilyn y rhyfel
- 85-4 oed+: twf canrannol sylweddol, yr amcangyfrifwyd ei fod wedi cynyddu 23.7% (+1,200) dros y deng mlynedd i 2015, i oddeutu 6,300 o bobl.

Disgwyliad oes


Mae disgwyliad oes yn Abertawe, fel manau eraill yn y DU, yn cynyddu. Cadarnheir y duedd gyffredinol hirdymor o boblogaeth sy'n heneiddio gan ffigurau diweddaraf y SYG ar gyfer disgwyliad oes cyfartalog adeg genedigaeth (ar gyfer 2012-14), sydd bellach yn 78.0 mlynedd i wrywod yn Abertawe (Cymru 78.5) ac 82.4 i fenywod (Cymru 82.3). Deng mlynedd yn gynt, h.y. 2002-2004, roedd disgwyliad oes yn Abertawe yn 75.7 mlynedd i wrywod (Cymru 75.8) ac yn 80.5 mlynedd i fenywod (Cymru 80.3). Bydd hyn yn cael effeithiau sylweddol ar ddarparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chyhoeddus eraill yn Abertawe.

Newid rhagamcanol mewn poblogaeth

Mae rhagamcaniadau poblogaeth diweddaraf Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar dueddiadau yn awgrymu y bydd poblogaeth Abertawe yn tyfu 9% (21,600 o bobl) rhwng 2014 a 2039. Yn y rhagamcaniadau hyn, mae gan Abertawe'r bedwaredd gyfradd twf uchaf rhagamcanol o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, y tu ôl i Gaerdydd a Wrecsam yn unig. O gymharu, mae'r rhagamcaniadau hyn yn awgrymu cynnydd mewn poblogaeth o 5.4% ar draws Cymru dros y cyfnod.

Mewn realiti, syniad yn unig y gall y rhagamcaniadau hyn ei roi os bydd tueddiadau demograffig diweddar yn parhau, ac maent yn darparu un senario'n unig yn seiliedig ar gyfres arbennig o dybiaethau. Mae'r rhagamcaniadau sy'n seiliedig ar 2014 yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol, ac yn y bôn mae'n defnyddio pum mlynedd o ddata ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo (hyd at ganol 2014).

Mae'r rhagamcaniadau hyn yn awgrymu y bydd nifer y bobl o oed pensiwn (65 ac yn hŷn), yn cynyddu 18,400 (+39.8%) i 64,700 dros y cyfnod 2014-2039 – cynnydd cyfartalog blyneddol o 740 (+1.6%). Y prif reswm am hyn yw'r gwelliannau tymor hir mewn cyfraddau marwolaeth (sy'n cael ei adlewyrchu yn y ffaith fod pobl yn byw'n hwy) a rhai carfanau poblogaeth yn heneiddio. Fodd bynnag, mae'r rhagamcaniadau'n awgrymu cyfraddau twf llai yn y boblogaeth oed gweithio (16-64 oed) dros y cyfnod 25 mlynedd, o 3,400 (+2.2%) yn gyffredinol, cyfartaledd o 140 o bobl neu 0.1% y flwyddyn. Mae newid rhagamcanol yn y grŵp 0-15 oed yn awgrymu gostyngiad bach o 100 (0.3%) dros y 25 mlynedd lawn. Mae ffigur 4 yn dangos y duedd gyffredinol ar gyfer poblogaeth Abertawe yn y dyfodol a awgrymir gan y rhagamcaniadau hyn.



Ffigur 4:
Rhagamcaniad o boblogaeth Abertawe

Ffynhonnell:
Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru (sail-2014), Llywodraeth Cymru.

Cyfansoddiad aelwydydd

Amcangyfrifir bod cyfanswm nifer yr aelwydydd (â phreswylwyr) yn Abertawe yng nghanol 2015 yn 106,300 (wedi'i dalgrynnu), cynnydd o oddeutu 700 (neu 0.6%) ar ffigur 2014. Ers 2010, mae nifer yr aelwydydd yn Abertawe wedi cynyddu 3,800 (+3.7%), gyda maint cyfartalog aelwyd yn disgyn yn araf i 2.23 o bobl (2015).

Yn 2015, aelwydydd ag oedolyn sengl (36,500/34.3% o'r cyfanswm) ac aelwydydd 2 berson 0 plant (31,400/29.5%) oedd y mathau mwyaf cyffredin o aelwydydd yn Abertawe.

Rhwng 2010 a 2015, cynyddodd nifer yr aelwydydd pobl sengl 2,600 (+7.7%), gyda newid arwyddocaol arall yn digwydd mewn aelwydydd 2 oedolyn 0 plentyn (cynnydd o 1,000 neu 3.2%) ac aelwydydd 4+ oedolyn 0-plentyn (cynnydd o 300 neu 7.7%); mae hyn efallai'n adlewyrchu'n rhannol y cynnydd mewn aelwydydd myfyrwyr. Mewn cyferbyniad â hyn, mae nifer yr aelwydydd 2 oedolyn, 1 plentyn neu fwy yn Abertawe wedi gostwng 300 (-1.6%) dros y cyfnod pum mlynedd.

Nodweddion poblogaeth:

- yn ôl grŵp ethnig

Mae cyfrifiad 2011 (yr un mwyaf diweddar sydd ar gael) yn amcangyfrif bod 14,326 o bobl o Abertawe yn dod o grŵp ethnig heb fod yn wyn, 6.0% o gyfanswm y boblogaeth; yn uwch

na'r ffigur cyfwerth ar gyfer Cymru (4.4%) a'r drydedd ganran uchaf ar gyfer y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, er yn is na'r ffigurau cyfwerth ar gyfer y DU.

Roedd 20,368 (8.5%) o boblogaeth Abertawe yn 'Brydeinig, heb fod yn wyn' yn 2011 (h.y. hefyd yn cynnwys grwpiau ethnig gwyn eraill); yn uwch na chyfartaledd Cymru (6.8%) ac eto'r trydydd uchaf o'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru, ond yn is na'r DU.

Dros y cyfnod 2001 i 2011, cynyddodd cyfran y bobl yn Abertawe o grŵp ethnig heb fod yn wyn o 2% o'r boblogaeth i 6%, cynnydd cyffredinol o 9,500 (+198%). Cynyddodd nifer y bobl 'wyn, Brydeinig' 10,800 (+113%), sy'n uwch na phob cynnydd cyfwerth ar gyfer Cymru (+118% a +78%).

Mae data Cyfrifiad 2011 yn awgrymu mai'r grwpiau ethnig heb fod yn wyn mwyaf yw:

- Tsieineaidd - 2,052 o bobl (0.9% o boblogaeth Abertawe)
- Bangladeshaidd – 1,944 (0.8%)
- Asiaidd arall – 1,739 (0.7%)
- Affricanaidd Du – 1,707 (0.7%)
- Arabaidd – 1,694 (0.7%).

Ymhlith y grwpiau ethnig heb fod yn wyn, roedd y cynnydd amcangyfrifedig mwyaf yn y boblogaeth rhwng 2001 a 2011 yn y grwpiau Affricanaidd Du (+1,500 yn fras), Bangladeshaidd ac Indiaidd (y ddau yn +900). Cynyddodd y boblogaeth 'Gwyn Arall' 1,400, sy'n adlewyrchu'n bennaf gyrhaeddiad mudwyr economaidd o ddwyrain Ewrop ers 2003.

Mae twf y grŵp ethnig Bangladeshaidd, y'i hystyrid ers tro y grŵp ethnig heb fod yn wyn mwyaf yn Abertawe, wedi parhau rhwng 2001 a 2011, a bron â dyblu (+94%) dros y cyfnod. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn awgrymu bod y grŵp ethnig Tsieineaidd bellach yn fwy na'r boblogaeth Fagladeshaidd yn Abertawe.

Ymhlith plant, mae amcangyfrifon SYG yn awgrymu bod y nifer rhwng 5 a 15 oed o grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn wedi cynyddu o oddeutu 1000 yn 2001 i 4,500 yn 2011 (Cyfrifiad). Mae data cyfrifiadau ysgolion yn awgrymu y cynyddodd cyfran y boblogaeth ysgol nad ydynt yn 'wyn Prydeinig' o 7.5% yn 2004 i 11.9% yn 2014 (+4,300 o ddisgyblion).

Mae'r dadansoddiad o boblogaeth Abertawe yn ôl grwpiau ethnig fesul ward hefyd ar gael o Gyfrifiad 2011. Cofnodwyd y poblogaethau lleiafrifoedd ethnig mwyaf yn wardiau trefol Uplands (2,091), y Castell (3,202) a Sgeti (1,323). Yn ôl cyfran, roedd gan wardiau'r Castell ac Uplands boblogaethau lleiafrifoedd ethnig o dros 10%.

- *Yn ôl crefydd*

Cyfrifiad 2011 hefyd yw'r ffynhonnell bendant ddiweddaraf o wybodaeth am grefydd. Cristnogaeth yw'r brif grefydd yn Abertawe o hyd (55%); fodd bynnag, nid oes gan 34% o bobl unrhyw greddau crefyddol ac nid atebodd 7% (mae cwestiwn y Cyfrifiad ar grefydd yn wirfoddol). O'r grwpiau a restrir, nododd 5,415 o bobl (2%) eu bod yn Foslemiaid, gan olygu mai dyma'r grefydd fwyaf cyffredin ar ôl Cristnogaeth.

Mae gwybodaeth o Gyfrifiad 2011 am ddisbarthiad crefyddau nad ydynt yn Gristnogol fesul ward yn dangos bod y nifer mwyaf yn y Castell (2,049), Uplands (1,208) a Sgeti (886). Yn ôl cyfran mae gan wardiau'r Castell (13%), Uplands a Glandŵr (8% ar gyfer y ddau) y cyfraddau poblogaeth uchaf a chrefydd nad yw'n Gristnogol.

- Y Gymraeg

Mae cyfran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn Abertawe wedi lleihau o 13.4% (28,938) yn 2001 i 11.4% yn 2011 (26,332 o bobl); gostyngiad o 9.0% er gwaethaf cynnydd cyffredinol yn y boblogaeth.

Mae newidiadau mewn sgiliau iaith Gymraeg rhwng cyfrifiadau'n amrywio yn ôl oed. Yn Abertawe, cynyddodd cyfran y plant 3 i 4 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg o 10.5% yn 2001 i 14.6% yn 2011, a chafwyd ychydig o gynnydd hefyd yn y grŵp oed 5-15, o 25.2% yn 2001 i 26.0% yn 2011.

Yn Abertawe (2011), mae gan ward Mawr y gyfran uchaf o'i phoblogaeth (3+ oed) sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg sef 29.3% (35.8% yn 2001), ac mae gan ward Townhill y gyfran isaf (3.7%). Llansamlet oedd â'r nifer uchaf o breswylwyr a allai siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (1,367). Yn 2011, roedd gan Mawr hefyd y ganran isaf o breswylwyr heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg (47.9%) a Townhill oedd â'r uchaf (89.5%).

- Gweithgarwch economaidd

Mae data diweddar ar strwythur gweithlu Abertawe'n awgrymu bod gweithgarwch economaidd a chyfraddau cyflogaeth yn Abertawe'n gymharol agos at gyfartaledd Cymru ond yn is na chyfraddau cyfwerth y DU. Fodd bynnag, mae'r nifer a'r gyfran fawr o fyfyrwyr sy'n byw yn Abertawe wedi cael peth effaith ar y ffigurau hyn.

Tabl 2: Strwythur gweithlu Abertawe, 2016

Ardal	Yn weithgar yn economaidd (16 oed ac yn hŷn)	Cyfradd anweithgarwch economaidd (oed gweithio)	Cyflogaeth (16 oed ac yn hŷn)	Cyfradd gyflogaeth (oedran gweithio)
Abertawe: Cyfanswm	117,000	74.1%	109,700	69.4%
Dynion	61,700	76.6%	58,000	71.8%
Menywod	55,300	71.5%	51,800	67.0%
Cymru	1,487,300	74.8%	1,418,900	71.2%
Y Deyrnas Unedig	33,090,200	77.7%	31,483,900	73.9%

Ffynhonnell: Amcangyfrifon yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB) am y cyfnod sy'n dod i ben ym mis Rhagfyr 2016, SYG.

Adlewyrchir statws Abertawe fel prif ganolfan weinyddol, fasnachol a hamdden yn ne-orllewin Cymru yn y cyfrannau uwch o gyflogaeth yn y sectorau gwasanaeth, a chyfraddau cyflogaeth cynhyrchu is cyfatebol.

Mae gan Abertawe gyfran cymharol uchel o breswylwyr oed gweithio â lefelau 3 NVQ ac uwch, ond hefyd rhai heb unrhyw gymwysterau. Mae gan 36.1% o breswylwyr Abertawe (16-64 oed) gymwysterau hyd at lefel 4 NVQ (lefel radd) ac uwch, sydd ychydig yn uwch na ffigur Cymru (35.1%). Fodd bynnag, nid oes gan 10.2% o boblogaeth oed gweithio Abertawe unrhyw gymwysterau (Cymru 9.5%; DU 8.3%) (APB, 2016).

Mae ystadegau'r farchnad lafur yn dangos statws Abertawe fel canolfan isranbarthol gydag integreiddio cryf rhwng Abertawe a'i hawdurdodau cyfagos, Sir Gâr a Chastell-nedd Port Talbot.

Mae'r data diweddaraf ar batrymau cymudo (33,400) yn nodi bod tua 8,300 o bobl yn mewnlifo i Abertawe bob dydd (mewnlif net +15,500), sy'n amcangyfrif sylweddol. Daw'r rhan fwyaf o gymudwyr dyddiol i mewn i Abertawe o Gastell-nedd Port Talbot (15,500) a Sir Gâr (8,600) (APB, 2016).